Menter Gymunedol Llanuwchllyn: Datganiad Cyfle Cyfartal

Bydd Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn ymrwymo i wrthwynebu hiliaeth, rhywiaeth a phob math o ragfarn sy'n cael ei wynebu gan bobl o leiafrifoedd ethnig, merched, pobl sydd ag anableddau ac unigolion LHDTQ+.

Bydd Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn gweithio yn erbyn pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ein ymarferion cyflogaeth ac yn narpariaeth ein gwasanaethau.

Bydd y Fenter hefyd yn ymrwymo i Waith Teg, hynny yw gwaith sy'n bodloni hawliau gweithwyr, sy'n cefnogi llesiant gweithwyr, ac sy'n sicrhau bod gan weithwyr lais.

Bydd Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn gweithredu yn gadarnhaol i wneud y polisi hwn yn gwbl effeithiol ac yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd na gwasanaeth yn derbyn ystyriaeth lai ffafriol ar sail ei hil, rhyw, lliw, cenedligrwydd, cefndir ethnig neu darddiad cenedlaethol, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, anabledd neu oedran.

Bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgil yr ymrwymiadau uchod yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, a gwneir newidiadau lle bo'n addas.

Arwyddwyd ar ran Menter Gymunedol Llanuwchllyn

Grisial Llewelyn (Cadeirydd)

Dyddiad: 7 Gorffennaf 2023